COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

# Datblygwr Systemau

## Manyleb swydd, swydd ddisgrifiad a manyleb person

Medi 2025

# Manyleb Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Datblygwr Systemau |
| **Ystod Gyflog:** | £31,236 – £37,694 (Pwyntiau sbinol 22 – 29)<br>*i'w drafod yn unol â phrofiad* |
| **Lleoliad:** | Aberystwyth, Caernarfon, Caerdydd neu Gaerfyrddin<br>*Mae hyblygrwydd o ran lleoliad fel rhan o'n dull gweithio hybrid* |
| **Statws Cyflogaeth:** | Llawn amser, parhaol |
| **Atebol i:** | Rheolwr Systemau a TG |
| **Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:** | 0 |
| **Dyddiad cau ceisiadau:** | 14:00, 20 Hydref 2025 |
| **Dyddiad Cyfweliad:** | 4 Tachwedd 2025 |

### Y Coleg – amdanom ni

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.  Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.  Er mwyn darganfod mwy am y Coleg

ewch i: [www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk) a dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## Y swydd

Mae'r Coleg yn dymuno penodi unigolyn cymwys, trefnus, a chreadigol i gydlynu datblygiad systemau prosesu data'r Coleg. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio gyda darparwyr a chyflenwyr allanol sy'n datblygu neu ddarparu systemau a chymwysiadau prosesu data i'r Coleg. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio ar ddatblygiadau mewnol, pellach i'r systemau ac yn datblygu a mireinio prosesau integreiddio.

Bydd gan yr unigolyn gymhwyster perthnasol a / neu brofiad o:

- ddatblygu a chefnogi systemau bas data,
- datblygu cymwysiadau (*applications*), neu gymwysiadau gwe, a / neu
- ddatblygu sgriptiau cragen (e.e. *Powershell*, *Bash*), a / neu
- raglennu mewn o leiaf un iaith gyfrifiadurol,
- darparu cymorth a chefnogaeth i ddefnyddwyr.

Yn ddelfrydol, bydd gan yr unigolyn brofiad o integreiddio systemau gan ddefnyddio gwasanaethau gwe (e.e. gwasanaethau *REST* neu *SOAP*).

## Gwneud Cais

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy gwblhau'r ffurflen gais a'r ffurflen fonitro cyfle cyfartal sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Coleg (Swyddi | Coleg Cymraeg Cenedlaethol). Ni fydd ceisiadau trwy CV yn dderbyniol. Dylid cyfeirio pob cais i Adnoddau Dynol drwy e-bost at adnoddaudynol@colegcymraeg.ac.uk a rhaid i bob cais gyrraedd **erbyn 14:00 ar 20 Hydref 2025**.

Gwahoddir y sawl sydd am gael gwybodaeth bellach am y swydd i gysylltu â Sion Pennant, Rheolwr Systemau a TG y Coleg drwy e-bostio s.pennant@colegcymraeg.ac.uk

## Cyfweliadau

Bwriedir cynnal cyfweliadau yn swyddfa'r Coleg yng Nghaerfyrddin ar 4 Tachwedd 2025.

Nid yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif.

# Swydd ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Datblygwr Systemau |
| **Ystod Gyflog:** | £31,236 – £37,694 (Pwyntiau sbinol 22 – 29)<br>*i'w drafod yn unol â phrofiad* |
| **Lleoliad:** | Aberystwyth, Caernarfon, Caerdydd neu Gaerfyrddin<br>*Mae hyblygrwydd o ran lleoliad fel rhan o'n dull gweithio hybrid.* |
| **Statws Cyflogaeth:** | Llawn amser, parhaol |
| **Atebol i:** | Rheolwr Systemau a TG |
| **Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:** | 0 |

## Nod Cyffredinol y Swydd

1. Cydlynu datblygiad systemau
2. Darparu cymorth a hyfforddiant i staff
3. Gweinyddiaeth gyffredinol o systemau a phrosesau
4. Cyfrannu tuag at amcanion cyffredinol y Coleg

# Prif Ddyletswyddau

## 1. Cydlynu datblygiad systemau

- Cydweithio gyda'r Rheolwr Systemau a TG i ddadansoddi gofynion busnes y sefydliad, llunio manylebau a chynlluniau prosiect manwl ar gyfer datblygiad systemau'r Coleg.
- Cydweithio gyda darparwyr a chyflenwyr systemau a llwyfannau digidol y Coleg ar reoli newid o fewn y sefydliad mewn modd effeithlon a diogel.
- Datblygu atebion mewnol penodol, gan gynnwys atebion ar gyfer integreiddio systemau yn unol â'r gofynion busnes.
- Datblygu rhyngwynebau cyhoeddus, greddfol i'w defnyddio ac sy'n cydymffurfio â safonau hygyrchedd a diwydiant.

## 2. Darparu cymorth a hyfforddiant i staff a defnyddwyr

- Darparu hyfforddiant i staff ar systemau'r Coleg, gan gynnwys datblygiadau diweddaraf, yn ôl yr angen.
- Dadansoddi, atgynhyrchu a threfnu neu ddarparu atebion i broblemau / gwallau gaiff eu canfod neu eu hadrodd, unai'n uniongyrchol neu drwy gyswllt â chyflenwyr neu ddarparwyr gwasanaethau allanol.
- Darparu cyngor technegol i staff a / neu ddefnyddwyr gwasanaethau'r Coleg yn ôl y galw.

## 3. Gweinyddiaeth gyffredinol o systemau a phrosesau

- Gweinyddu, ffurfweddu a rheoli newidiadau o fewn systemau'r Coleg gan gynnwys llwyfannau digidol a phlatfform e-ddysgu.

- Cwblhau tasgau technegol i sicrhau bod data, gan gynnwys adnoddau digidol, yn cydymffurfio â gofynion technegol a safon y Coleg ac yn cydymffurfio â rheoliadau statudol, e.e. hygyrchedd, GDPR.
- Cydweithio gyda'r Rheolwr Systemau a TG er mwyn sicrhau bod prosesau dydd-i-ddydd y Coleg yn gweithio'n esmwyth ac effeithlon.
- Cynnal systemau yn gyffredinol, gan gynnwys gofalu bod diweddariadau diogelwch yn cael eu gosod o fewn terfyn amser i gydymffurfio â gofynion Polisi Diogeledd Data'r Coleg.
- Adnabod datblygiadau fyddai'n gwella gwasanaethau'r Coleg a / neu wella profiad defnyddwyr a chydweithio gyda'r Rheolwr Systemau a TG a / neu ddarparwyr a chyflenwyr allanol ar raglen o welliant parhaus.

## 4. Cyfrannu tuag at amcanion cyffredinol y Coleg

- Cynrychioli'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ôl y galw.
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill i'w cytuno gyda'r Rheolwr Llinell.

# Manyleb Person

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y medrau, y sgiliau, y galluoedd a'r wybodaeth a ganlyn er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol.

| Meini Prawf | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Addysg a hyfforddiant** | Gradd anrhydedd, cymhwyster cyfatebol neu brofiad perthnasol | x | |
| | Cymhwyster Galwedigaethol / Proffesiynol arall e.e. Rheoli Prosiect, *ITIL* | | X |
| **Profiad** | Profiad o ddatblygu systemau bas data SQL normaleiddiedig, (e.e. *Oracle*, *MS SQL Server*, *MySQL* / *MariaDB*) | X | |
| | Profiad o ddatblygu systemau *Microsoft Dataverse* | | X |
| | Profiad o raglennu mewn o leiaf un iaith gyfrifiadurol (e.e. *PHP*, *Python*, *Java*, *C++*, *JavaScript* a.y.y.b.) | X | |
| | Profiad o raglennu mewn o leiaf un o'r canlynol: *Powershell*, *JavaScript*, *Bash* | | X |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Profiad o ddatblygu gwefannau a / neu gymwysiadau gwe | X | |
| | Profiad o integreiddio systemau a / neu ddatblygu atebion wasanaethau gwe (*web services*), (e.e. gwasanaethau *REST*, *SOAP*) | | X |
| | Profiad o ddarparu cefnogaeth ar systemau a / neu gymwysiadau, a chefnogaeth TG cyffredinol i ddefnyddwyr | | X |
| | Profiad o weinyddu neu ymwybyddiaeth o systemau Microsoft (e.e. *Intune*, *Entra ID, Exchange, Sharepoint*) | | X |
| **Sgiliau gwaith** | Sgiliau cydlynu a threfnu prosiectau sy'n ymwneud â systemau a thechnoleg | | X |
| | Sgiliau rhagorol wrth gadw trefn, dadansoddi a datrys problemau, a'r gallu i flaenoriaethu a gweithio'n llwyddiannus o dan bwysau | X | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Y gallu i gydweithio'n agos ac yn effeithlon ag aelodau'r tîm, cydweithwyr eraill a thrydydd partïon | X | |
| | Medru trefnu a chydlynu gan gynnwys y gallu i weithio i derfynau amser tynn | X | |
| | Y gallu i weithio yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. *Mae croeso i chi gyfeirio at unrhyw gymhwyster sy'n profi eich gallu ieithyddol yn y Gymraeg e.e. y Dystysgrif Sgiliau Iaith* | X | |
| | Sgiliau cyfrifiadurol rhagorol gan gynnwys sgiliau cronfeydd data, Word, Excel a defnyddio gwasanaethau megis SharePoint, neu debyg. | X | |
| **Nodweddion a sgiliau personol** | Y gallu i weithio yn annibynnol yn ôl yr angen | X | |
| | Sgiliau cyfathrebu effeithiol gan gynnwys y gallu i gyflwyno gwybodaeth dechnegol yn glir a dealladwy | X | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Brwdfrydedd ac ymagwedd greadigol a rhagweithiol | X | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** | Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion dylunio cymwysiadau (*applications*) a systemau prosesu data | X | |
| | Gwybodaeth am fethodolegau rheoli prosiect | X | |
| | Gwybodaeth am fethodoleg rheoli prosiect *Agile* | | X |
| | Dealltwriaeth a phrofiad o ddefnyddio Amgylcheddau Datblygu Integredig (IDE) ar gyfer rhaglennu | | X |
| | Gwybodaeth drylwyr o *HTML*, *CSS* a *JavaScript* / *jQuery* | X | |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau rheoli adolygiadau cod ffynhonnell (e.e. *GIT*, *SVN*) | | X |
| | Gwybodaeth am a dealltwriaeth o waith amrywiol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol | | X |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofynion eraill** | Y gallu i deithio i wahanol leoliadau yng Nghymru | X | |
| | Bydd gofyn fod gennych gyswllt rhyngrwyd addas er mwyn gweithio o gartref fel rhan o'r dull gweithio hybrid | X | |

# Amodau'r Penodiad

Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Mae'r penodiad yn ddarostyngedig i drefniadau Adnoddau Dynol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2. Penodir ar gyflog o fewn yr ystod pwyntiau sbinol 22 – 29 sef £31,236 – £37,694 y flwyddyn. Pennir yr union gyflog yn dilyn y cyfweliad gan gymryd i ystyriaeth gymwysterau a phrofiad blaenorol.

3. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn gytundeb llawn amser, parhaol o'r dyddiad cychwyn.

4. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn nodi 35 awr wedi eu contractio bob wythnos.

5. Pennir yr oriau gwaith arferol drwy drefniant â'r rheolwr llinell. Bydd disgwyl, ar adegau, i'r sawl a benodir i weithio y tu allan i'r oriau arferol, lle y bo ymrwymiadau gwaith yn galw am hynny.

6. Bydd hawl i 28 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau statudol a 4 diwrnod o wyliau neilltuol. Mae'r flwyddyn wyliau o 1 Medi i 31 Awst yn gynwysedig. Rhaid cymryd gwyliau blynyddol ar adegau y cytunir arnynt gan y rheolwr llinell.

7. Bydd deiliad y swydd hon yn gymwys ar gyfer Polisi Oriau Hyblyg y Coleg.

8. Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS).

9. Ni chaiff y sawl a benodir ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth neu benodiad arall sy'n galw am gryn dipyn o'i (h)amser neu ei (h)egni heb ganiatâd Prif Weithredwr y Coleg.

10. Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i brawf o'r cymwysterau addysgol a restrir ar y ffurflen gais ynghyd a geirda derbyniol gan y canolwyr a enwir ar y ffurflen gais.

11. Bydd cyfnod prawf o chwe mis pryd bydd cyfnod rhybudd o 2 wythnos yn weithredol.

12. Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus, gellir terfynu'r cytundeb drwy roi rhybudd ysgrifenedig yn unol â'r cytundeb cyflogaeth.